

Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan
gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Casglu data	2
Dadansoddi'r dysgwr	4
<i>Datblygiad mathemategol</i>	4
<i>Datblygiad iaith</i>	5
<i>Datblygiad lles</i>	6
<i>Datblygiad corfforol</i>	7
<i>Datblygiad creadigol</i>	8
Camau nesaf	8
<i>Datblygu meddylfryd twf</i>	8
<i>Cyfle i ddysgu yn null dewisol y plentyn</i>	9
<i>Cydweithio a chyfoedion ac oedolion</i>	11
Casgliadau	12
Cyfeiriadau	13
Atodiadau	15
Atodiad 1	15
Atodiad 2	16
Atodiad 3	17
Atodiad 4	18
Atodiad 5	19

Rhagarweiniad

Cynhalir y dadansoddiad yma mewn ysgol ym mhentref yn De Cymru. Mae 45 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth oedran cymysg ac mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn llawn amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Gweler fod yna 19% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd yn ffigur yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Yn ogystal â hyn, daw tua 18% o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Gan mae Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu, nod yr ysgol yw sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2. Ymhellach, ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac mae gan tua 6% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn gryn dipyn yn is na'r ffigur cenedlaethol (ESTYN, 2015).

Mae'r plentyn o dan sylw yn y dosbarth cyfnod sylfaen, le mae yna 28 o blant rhwng yr oedran 3 i 7. Fodd bynnag, mae'r plant wedi eu grwpio yn ôl gallu. Mae ganddynt ddosbarth llawn ardaloedd gwahanol a hefyd ardal allanol eu hunain llawn heriau. Merch o flwyddyn 1 yw'r plentyn dan ffocws sydd yn cael ei hystyried i fod o allu canolig ac mae hi wedi cyrraedd y lefel disgwylidig yn nangosydd pynciau craidd y llynedd. Dengys Stats Cymru (2018) bod 82.6% o blant sydd wedi cyrraedd y deilliant disgwylidig. Gweler yn Atodiad 4 ei fod yn ferch gwrtais a weithgar ac mae hi'n aml yn falch i ddangos ei waith gorffenedig. Yn ychwanegol, dywed ei fam ei fod yn ferch dawel a pharchus gartref.

Casglu data

Er mwyn casglu data, bydd yr astudiaeth yma yn dilyn y dull mosaig er mwyn dadansoddi'n fanwl datblygiad cyfannol y plentyn o dan sylw yn iaith, mathemateg, lles a dau faes dysgu neu bwnc cwricwlwm trwy wrando ar lais y plentyn a sut mae'r plentyn yn gweld eu hunain fel dysgwyr. Pwrpas y dull mosaig yw galluogi i ymchwilyr i gasglu data trwy ddulliau gwahanol. Mae'r dull mosaig felly yn broses aml-ddull sydd yn cynnwys defnyddio gwahanol dechnegau er mwyn ennill barnau a phrofiadau plant, (Clark a Moss, 2011, t.13). O'i arall eirio, mae'r dull mosaig yn ffocysu ar wrando ar safbwynt plant ar eu bywydau dyddiol gan sicrhau bod y plant yn arbenigwyr yn eu bywydau eu hun, yn blant gyda hawliau a bod y

plant fel rhai sy'n gwneud synnwyr. Ystyrir bod yr ymchwilydd yn rhoi darnau at ei gilydd er mwyn creu un llun mawr, fel mosaig. Dywed Clark a Moss (2011, t.13) gall y darnau yma cynnwys defnydd y plant o gamera, chwarae rôl neu fapio sgwrs gydag oedolion er enghraifft. Mae'r sgysiau yma yn darparu mewnwelediad i ddehongliadau a meddyliau ar sut mae'r plant yn meddwl a theimlo. Awgrymir felly mae nod y dull mosaig yw gwella amgylchedd dysgu plant.

Cysylltir hwn gyda theory addysgeg gwrando Rinaldi (2005) sydd wedi bod yn un o gonglfeini ymarfer Reggio Emilia, ble mae'r elfennau yn cynnwys gwrando mewnol neu adfyfrio, gwrando lluosog neu fod yn agored i leisiau eraill a gwrando gweladwy sydd yn cynnwys dogfennaeth a dehongliad. Yn yr un modd, mae'r fframwaith ar gyfer gwrando o fewn y dull mosaig yn gyfranogol, yn hyblyg, yn ganolbwytiedig ac yn ymwreiddio (Clark, 2005, t.13), a dyma pam maent yn addas ar gyfer yr astudiaeth yma. Yn unol â hyn, cynigiodd theori adeiladaeth gymdeithasol Piaget (1972) bod dysgu yn broses ddeinamig sydd yn cynnwys camau dilynol o addasu i realiti lle mae dysgwyr yn llunio gwybodaeth yn weithredol drwy greu a phrofi eu damcaniaethau eu hunain o'r byd. Mae hyn felly yn cefnogi'r dull mosaig.

Ar y llaw arall, credir efallai nad yw'r dull mosaig yn ddigon gwyddonol ac felly ni ellir cyffredinoli data yn unol â hyn. Dywed Cohen (2008) mae gwyradau o ddatblygiad arferol yn dod yn broblem ac mae addysgeg wyddonol wedi dod i'r amlwg, gan ddarparu fframweithiau safonol ar gyfer arfer gorau yn y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn creu argyfwng personol a phroffesiynol posibl i'r ymchwilydd sydd yn cofleidio ffyrdd adeiladwr o weithio sydd yn gwerthfawrogi amheuaeth ac amwysedd (Dahlberg *et al.* 2006, t.184). Er hynny, ni ellir diystyru gwerth y dull hwn, gan ei fod yn cynnig mewnwelediad i fywydau pobl mewn ffyrdd na all y ffyrdd mwy gwyddonol a thraddodiadol eu gwneud.

Gellir dadlau hefyd bod cyfathrebu a phlant yn cynnwys cwestiynau pŵer lle mae gwahaniaethau o ran statws sydd yn anodd mynd i'r afael a hwy. Credir Clark (2005, t.25) bod yna nifer o ffactorau sydd yn cyfrannu at yr anghydbwysedd hwn, ond mae disgwyliadau yn un elfen. Mae disgwyliadau oedolion o blant ifanc yn dylanwadu ar sut maent yn cyfathrebu â phlant a sut maent yn galluogi plant i gyfathrebu â nhw. Gall edrych ar blant fel pobl wan, yn ddi-rym ac yn agored i niwed a gall arwain at ddisgwyliadau uchel o

rôl yr oedolion o ran amddiffyn a meithrin ond disgwyliadau isel o'r plant o ran sut y gallant fynegi eu safbwyntiau, eu blaenoriaethau a'u diddordebau.

Er mwyn sicrhau cyfathrebu teg gyda'r plentyn, byddwn yn cynnal cyfrinachedd a phreifatrwydd a ni chaiff y plentyn neu'r ysgol maent yn perthyn i'w hadnabod, felly bydd y wybodaeth yma yn parhau i fod yn ddienw. Yn ôl BERA (2011: t6) mae rhaid i'r ymchwilwyr gydnabod hawl yr unigolyn i breifatrwydd a rhaid iddynt roi eu hawliau i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd iddynt. Yn allweddol, mae caniatâd yn bwysig iawn o fewn unrhyw fath o ymchwil ac mae'n bwysig bod y plentyn yn ymwybodol am ei hawliau i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Awgrymir felly bod yr elfennau moesegol o fewn y canllawiau BERA (2011) yn cael eu hystyried yn ofalus cyn dechrau ymchwil i ddiogelu gwybodaeth bersonol y plentyn. Drwy gydol yr ymchwil hon, fe wnâi sicrhau fy mod yn parchu preifatrwydd y plentyn a chynnal cyfrinachedd a byddaf hefyd yn storio'r data a gasglir yn unol â chanllawiau BERA (2011).

Dadansoddi'r dysgwr

Datblygiad mathemategol

Er mwyn dadansoddi dysgu'r plentyn o dan sylw, byddaf yn cyfeirio at y model ASK (Nottingham, 2013) sydd yn cydnabod rôl agweddau, sgiliau a gwybodaeth mewn dysgu. Gwelir yn gyntaf yn natblygiad mathemateg y plentyn ei fod wedi dod yn fwy hyderus dros amser yn nhasgau mathemateg. Tra bod agweddau nifer o blant tuag at fathemateg gan amlaf yn negyddol, nodir mewn sgwrs gyda'r plentyn ei fod yn hoff iawn o wneud gwaith ac roedd hi yn amlwg bob tro yn barod i ddysgu. Cyn dechrau addysgu, dywed fy athrawes dosbarth bod y plant yn wan gyda siapiau 2D, er ei fod wedi gwneud gwaith ar siapiau 2D yn gynharach yn y flwyddyn. O ganlyniad, penderfynais felly canolbwyntio yn benodol ar siapiau 2D o fewn fy ngwersi mathemateg. Roeddwn am geisio gwneud fy ngwersi mor hwyl a gallaf er mwyn gwneud y ddysgu yn gofiadwy i'r plant. Yn ystod fy nghyflwyniad cyntaf sef enwi'r siapiau 2D ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, roedd yn amlwg wrth asesu dealltwriaeth flaenorol y plant bod y plentyn o dan sylw yn adnabod siapiau sylfaenol megis sgwâr, triogl, petryal, cylch a phentagon, ond roedd rhaid iddi edrych ar yr arddangosfa yn y dosbarth er mwyn enwi siapiau anghyffredin megis hecsagon, heptagon ac octagon er enghraifft. Roedd ei gwybodaeth ar y pwnc felly yn gyffredinol.

Gwelir yn ystod y dasg ffocws cyntaf ar siapiau 2D sef gem o nadroedd ac ysgolion (gweler atodiad 1), fod y ferch o dan sylw am wirio'r atebion gyda fi pob tro roedd gofyn iddi hi enwi siapiau 2D anghyffredin. Tybir fod yna fwllch yn hunan hyder y plentyn yn ei waith neu yn ei wybodaeth ei hun. Ar ôl y wers gyntaf, roeddwn wedi sicrhau fy mod yn ymgorffori siapiau 2D i mewn i fy nghynlluniau amser cylch a hefyd fy ngwersi ymarfer corff fel bod y plant yn cael ei hatgoffa o enwau'r siapiau hyd yn oed pan nad ydynt yn gwneud gwers mathemateg. Roedd bron pob cyflwyniad ar siapiau 2D yn cynnwys rhyw fath o gêm er mwyn diddori'r plant ac roedd y plentyn o dan sylw pob tro am gynnig ateb a chymryd rhan. O fewn tipyn, gwelir cynnydd yn sgiliau geometrig y plentyn o fewn mathemateg oherwydd noda'r cynorthwyydd dosbarth ei fod yn gallu adnabod heptagon, sgwâr, cylch, triongl, hecsagon ac octagon ac ym mhellach yn gallu rhoi nodweddion y siapiau. Mae hyn yn fwy na ddisgwyliadau'r cwricwlwm sydd yn gofyn iddynt adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D cyffredin megis sgwâr, triongl, petryal, cylch a hanner cylch er mwyn dechrau eu cymharu â'u didoli. Mae'n amlwg felly bod cynnydd hefyd yn hyder y plentyn oherwydd gallwn weld wrth farcio gwaith y plentyn ei fod wedi cwblhau gwaith ar siapiau 2D i gychwyn gyda chymorth ac yn nawr yn gallu cwblhau gwaith siapiau 2D yn annibynnol (gweler atodiad 2).

Datblygiad iaith

Gwelir cynnydd sylweddol yn natblygiad iaith a llythrennedd y plentyn, er gellir dadlau bod achos y cynnydd yma yw oherwydd cymorth, matiau geirfa a strwythur brawddegau sydd yn hygyrch iddi yn ystod tasgau ffocws iaith. Ar ddechrau fy addysgu, lle'r oedd rhaid iddi ysgrifennu cyfarwyddiadau i blannu hadau, gwelir fod yna fwllch wrth i'r plentyn anghofio cynnwys priflythyren ac atalnod llawn yn ei waith ac nad oedd hi'n defnyddio llinellau i ysgrifennu. Serch hynny, roedd hi wedi gwneud y dasg yma gyda mat geirfa yn unig. Os byddwn yn gwneud y wers yma eto, byddwn yn gwneud gwers yn unig i gychwyn ar ferfau gorchmynnol cyn mynd ati i ysgrifennu'r cyfarwyddiadau. Yna, byddwn yn sicrhau fy mod yn rhoi'r berfau gorchmynnol ar fat geirfa i'r plant er mwyn helpu nhw i ysgrifennu'r cyfarwyddiadau. Gellir dadlau felly fod ei agwedd yn llai cadarnhaol yn iaith a llythrennedd na mathemateg, ond efallai gyda mwy o gymorth byddai agwedd y ferch yn fwy cadarnhaol. Tybir fod yna fwllch felly os mae'r plentyn yn rhy ddibynnol ar gymorth.

Er gwaethaf hyn, gwelwn ar ei chofnod darllen ei fod yn gallu adnabod priflythyren ac atalnod llawn (gweler atodiad 3), a gweler yn ei gwaith iaith fwyaf diweddar ei fod yn

defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir ac mae hefyd cynnydd sylweddol o fewn ei llawysgrifen. Rheswm dros hyn yw efallai oherwydd roedd hi'n defnyddio'r llinellau yn effeithiol i ysgrifennu a hefyd roedd hi'n aildrefnu brawddegau roedd wedi'i dosbarthu iddi. Awgrymir felly roedd strwythur brawddegau, treiglo a ffurfio llythrennau yn well gyda hi oherwydd roedd yn weledol. Wrth ystyried hyn a'r ffaith mae hi'n hoff o wirio'i atebion gydag oedolyn, gallwn ddadlau ei fod yn ddysgwr sydd yn awyddus iawn i lwyddo a gwneud gwaith da. Esiampl nodedig yw yn ystod arsylwad, roedd hi yn meddwl cyn ateb cwestiwn a ofynnais oherwydd roedd hi am ddefnyddio'r Gymraeg (gweler atodiad 4). Nodir hefyd ei fod yn falch iawn i ddangos ei waith gorffenedig. O ganlyniad, mae ei waith da wedi ennill hi seren y dydd, sydd yn golygu ei fod wedi bod yn helpwr y dydd y diwrnod ar ôl. Mae'n amlwg felly bod gan y plentyn sgiliau a gwybodaeth iaith o safon eithaf da. Nodir yn ei chofnod darllen (gweler atodiad 3) ei fod yn darllen yn dda, ac er bod hi'n cael trafferth i ddweud ambell air mae hi'n gallu darllen geiriau syml heb seinio, felly mae ganddi sgiliau darllen da hefyd.

Datblygiad lles

Er mwyn cofnodi datblygiad lles y plentyn, rwyf wedi gwneud arsylwadau a hefyd cofrestr emosiynau yn ystod amser cylch yn y prynhawn le mae gan y plant y cyfle i ddewis rhif i gynrychioli sut maen nhw'n teimlo. Gweler fod teimladau'r plentyn wedi amrywio o 1 i 5, sef y lleiaf i'r mwyaf. Yna yn ystod amser cylch mae gyda'r plant y cyfle i drafod sut maen nhw'n teimlo a pam maen nhw'n teimlo fel hyn. Rhan fwyaf o'r amser mae'r plentyn o dan sylw wedi bod yn rhif 4 neu 5 oherwydd mae hi wedi mwynhau gwneud gwaith, neu wedi cael hwyl amser chwarae gyda ffrindiau ac ati. Pan rwyf am dderbyn llais y plentyn ynglŷn â beth maent eisiau gwneud yn ystod amser cylch, maent yn hoff iawn o drafod eu teimladau gan gynnwys y ferch o dan sylw. Gwelir ei fod yn ddigon parod i drafod a bob tro yn rhoi ei llaw lan ac yn aros ei dro. Er bod hi yn aml yn dod ar draws fel merch hapus, esboniodd hi yn ystod amser cylch ei fod yn teimlo'n rhif 1 oherwydd mae hi'n dioddef o glefyd y gwair yn wael iawn. Roedd hyn yn amlwg yn ystod gwers ymarfer corff. Roedd y cyngor wedi dod i'r ysgol yr wythnos yna i dorri'r gwair a dyma pryd wnaeth ei lygaid waethygu. Roedd hyn wedi achosi iddi i fabwysiadu agwedd negyddol ac roeddwn yn gallu gweld ei fod yn dioddef felly roeddwn wedi gadael iddi eistedd i lawr oherwydd roedd ei lygaid yn boenus iawn er ei fod wedi cael dafnau llygaid. Serch hynny, ar y cyfan gwelir cynnydd yn natblygiad lles emosiynol

y plentyn oherwydd mae hi yn amlwg wedi dod yn fwy hyderus i drafod gyda fi sut mae hi'n teimlo ac maent yn agored iawn wrth drafod hyn.

Mae hyn yn arwain i gynnydd yn ei ddatblygiad lles cymdeithasol hefyd. I gychwyn pan ddechreuais yn yr ysgol, roedd hi'n eithaf tawel, ond erbyn nawr mae hi yn aml yn dod ataf i gael sgwrs ac mae ganddi agwedd llawer fwy hyderus nawr wrth siarad â mi. Mae'n amlwg felly ei fod yn teimlo ei fod yn perthyn i gymuned yr ysgol ac mae sgiliau lles cymdeithasol y plentyn o dan sylw yn amlwg wrth iddi adeiladu perthynas gyda fi a hefyd gyda phlant eraill yn y dosbarth. Wrth arsylwi, nodir ei fod yn agos iawn i ferch arall yn y dosbarth sydd yn yr un grŵp gallu a hi. Maent yn aml yn rhannu adnoddau ac yn eistedd ar bwys ei gilydd. Er hynny, un diwrnod pan roedd ffrind y ferch yn dost, roedd hi'n ddigon hapus i gyfathrebu gyda phlant eraill yn y dosbarth, felly rwyf wedi gweld cynnydd yn sgiliau cyfathrebu'r plentyn hefyd. Dywed Smith *et al.* (2001) mewn amgylchedd ysgol gall cyfeillgarwch atal teimladau o unigrwydd a chynnwys yr unigolyn mewn gweithgareddau cymdeithasol cyfatebol. Awgrymir felly bod y plentyn yn ddysgwr hoffus a cyfeillgar.

Datblygiad corfforol

Nid wyf wedi gallu gweld llawer o gynnydd yn natblygiad corfforol y plentyn o dan sylw oherwydd mae clefyd y gwair wedi achosi iddi golli allan ar wers ymarfer corff, a hefyd yn ystod amser chwarae mae hi fel arfer yn eistedd lawr neu yn mynd mewn tu fewn os mae hi'n dioddef yn wael o glefyd y gwair ar y diwrnod ni. Gwelir bwlch felly yn benodol yn sgiliau echddygol mawr y plentyn. Serch hynny, mae hi yn amlwg yn dilyn diet cytbwys oherwydd mae hi'n mynd i'r siop ffrwythau pob amser chwarae a hefyd mae hi hefyd yn cael cinio ysgol pob dydd. O'r hyn rydw i wedi gweld cyn i'w clefyd y gwair waethygu, roedd hi pob dydd yn ddigon parod i wneud y filltir fawr yn y prynhawn felly roedd ganddi agwedd digon cadarnhaol i'w ddatblygiad corfforol. Roedd hi hefyd yn dangos sgiliau pêl dda yn ystod wers ymarfer corff trwy wneud pas y fron a phas sbonc. Er hynny, roedd yn gweld hi'n anodd gwneud pas yr ysgwydd ac felly roedd hi am osgoi gwneud y pas yma yn ystod y gweithgaredd. Dengys gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o'r gêm grwpiau a goleuadau traffig yr oeddwn wedi chwarae'r wythnos cyn a oedd yn amlwg yn ystod asesu dealltwriaeth y plant o'r hyn a wnaethon ni yn flaenorol. Felly er nad wyf wedi gweld llawer o gynnydd yn natblygiad corfforol y plentyn, awgrymir ei fod yn blentyn egniol ac actif. Er hynny, mae'n bwysig sicrhau bod yna cynnydd yn natblygiad corfforol y plentyn oherwydd

yn ol Brown a Taylor (2008), mae yna ormod o blant sydd yn brin iawn o chwarae yn yr awyr agored.

Datblygiad creadigol

Mae'n amlwg wrth wneud tasgau creadigol, yn enwedig heriau creadigol, bod y plentyn o dan sylw wedi mabwysiadu agwedd cadarnhaol iawn. Mae nifer o blant y dosbarth yn hoff iawn o wneud heriau yn yr ardal allanol, ac er bod y plentyn hefyd yn hoff o fynd tu allan, mae hi'n ddigon hapus i aros mewn i wneud rhyw fath o gelf megis lliwio neu baentio er enghraifft. Heb amheuaeth, mae hi'n defnyddio ei sgiliau echddygol manwl i wneud gwaith creadigol o safon dda iawn. Gwelir o fewn wers creu map stori ei fod wedi mwynhau'r dasg ac roedd cael y cyfle i greu lluniau a'i liwio i gyd-fynd â'r stori wedi helpu hi i ysgrifennu'r stori yn y drefn gywir. Awgrymir felly bod ymgorffori cyfleoedd iddi fod yn greadigol mewn i wersi iaith er enghraifft wedi ehangu a chefnogi ei gwybodaeth flaenorol. Yn ychwanegol, rwyf yn aml yn clywed hi'n canu o gwmpas y dosbarth a sylweddolais wrth i mi gyflwyno cân newydd i'r dosbarth am siapiau 2D a hefyd ar sut i blannu hadau, roedd y plentyn yn ymdrechu i ganu hefyd a dysgu'r geiriau. Credir ei fod yn ddysgwr creadigol iawn a'i fod yn buddio o wneud unrhyw beth creadigol o fewn pynciau craidd. Yn dilyn hyn, credir fod y plentyn yn barod yn gyfranogwr creadigol ac yn ddysgwr uchelgeisiol a galluog sydd yn cael ei nodi o fewn argymhellion Donaldson (2015).

Camau nesaf

Datblygu meddylfryd twf

Er mwyn gwella hunan hyder y plentyn yn ei gwaith, byddwn yn ystyried ymgorffori theori Dweck (2012) sef i ddatblygu meddylfryd twf y plentyn. Mae'n seiliedig ar y gred y gallwn wella gwybodaeth, gallu a pherfformiad plant trwy helpu nhw i ddatblygu meddylfryd twf sydd yn arwain iddynt i ddysgu yn fwy effeithiol ac effeithlon. Credir pan fydd y plentyn yn credu ei fod yn gallu mynd yn gallach, maent yn deall bod ymdrech yn eu gwneud yn gryfach. O ganlyniad, maent yn rhoi amser ac ymdrech ychwanegol sydd yn y pendraw yn arwain at gyflawniad uwch. Noda Dweck (2012) y gallwn ddatblygu meddylfryd twf trwy fonitro a gwerthuso perfformiad y plentyn a nodi sut gallent wella y tro nesaf. Ystyrir hefyd gall y plentyn ddatblygu hwn trwy siarad â'i hun yn gadarnhaol. Felly fel athrawes, er mwyn

i'r plentyn gwneud cynnydd ynglŷn â'i hunan hyder, byddwn yn ymgorffori strategaethau gwahanol yn y dosbarth. Er enghraifft byddwn yn canmol y broses, ymdrech y plentyn a'i datblygiad gan hefyd annog y plentyn i ofyn am adborth a synnwyr o chwilfrydedd.

Awgrymir hefyd fy mod yn cael disgwiliadau uchel, heriol ond realistig o berfformiad y plentyn a'i chyfleu hyn iddi. Hefyd bydd yn syniad creu diwylliant twf sydd yn gwerthfawrogi dysgu, addysg a datblygiad. Yn olaf, awgrymir fy mod yn addysgu'r plentyn i reoli sut maent yn siarad â'i hunain ac i wneud hynny mewn ffordd gadarnhaol, ddefnyddiol ac egnïol.

Yn dilyn hyn, dengys bod rhieni yn gallu helpu eu plant i ddatblygu meddylfryd twf trwy ganmol eu hymdrechion yn hytrach na chanmol eu talentau presennol. Hefyd, gall cyflwyno methiannau mewn goleuni mwy cadarnhaol annog dysgu ac yn ei dro cynyddu cred y plentyn y gall hi wella. Serch hynny, un cyfyngiad a noda gan Hollingworth *et al.* (2009) yw gall rieni teimlo nad oes ganddynt y wybodaeth neu'r sgiliau i helpu eu plant gartref neu i ymgysylltu â staff yr ysgol. Nodir ESTYN (2015) fodd bynnag bod perthynas da rhwng yr ysgol a'r rhieni ac maent yn cefnogi holl weithgareddau'r disgyblion. Gwelir fod adroddiadau blynyddol i rieni yn cyflwyno gwybodaeth fuddiol iddynt ar gynnydd a chyflawniad eu plant. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd i drafod cynnydd gyda rhieni yn digwydd yn ddigon rheolaidd. Wrth ystyried hyn, y cam nesaf byddwn yn gwneud i helpu'r plentyn i wneud cynnydd yn ei hunan hyder yw rhoi'r cyfle i'r rhieni i bob tymor i drafod perfformiad eu plentyn er mwyn sicrhau bod y plentyn yn derbyn digon o gymorth a chanmoliaeth gartref yn ogystal ag yn yr ysgol. Mae hyn felly yn galluogi i'r rhieni i deimlo eu bod yn cymryd rhan yn dysgu eu plant a hefyd mae'n ffordd i arsylwi eu cynnydd. Er nad oes unrhyw blentyn dod o gartref le mae Saesneg yn iaith ychwanegol, bydd yn bwysig ystyried hyn yn y dyfodol wrth drafod gyda rhieni gan sicrhau fy mod yn dilyn polisiau'r ysgol ynglŷn â hyn.

Cyfle i ddysgu yn null dewisol y plentyn

Mae'n ffaith wybyddus bod athrawon a phlant wedi gorfod brwydro gyda sut i ddysgu ac addysgu. Mae'n amlwg fod gan bob athro neu athrawes steil penodol, ond mae'n bwysig ystyried bod gan bob plentyn steil penodol hefyd. Mae problemau yn datblygu felly pan na fydd athrawon a phlant yn cyfateb. Cytuna Alkhayat *et al.* (2013) sydd yn nodi er bod plant yn defnyddio eu synhwyrau i gyd i gymryd gwybodaeth, mae'n ymddangos bod ganddynt ddewisiadau o ran sut maent yn dysgu orau. Er mwyn helpu plant i ddysgu, mae'n bwysig bod athrawon a rhieni yn cydweithio er mwyn addysgu'r gwahanol ddewisiadau dysgu.

Credir un o'r tasgau fwyaf pwysicaf i rieni ac athrawon yw deall sut mae plant yn dysgu a sut i ddarparu cyfleoedd dysgu trwy ddefnyddio'r dewisiadau hyn.

Er mwyn gweld cynnydd yn natblygiad mathemateg y plentyn, y cam nesaf bydd i ddeall sut mae hi'n dysgu'r gorau a pa strategaethau maent yn defnyddio. Nodir ei fod yn ddysgwr gweledol gan ei fod yn elwa o adnoddau gweledol. Er welais gynnydd yn sgiliau geometrig y plentyn, rhaid ystyried efallai na fyddwn wedi gweld cynnydd o fewn llinynnau ac elfennau gwahanol o'r cwricwlwm megis defnyddio sgiliau rhif, mesur a data er enghraifft. Byddwn felly yn sicrhau fy mod yn defnyddio adnoddau gweledol wrth ddysgu'r plentyn gan mae hi'n deall mathemateg yn well wrth weld a defnyddio gwahanol adnoddau. Golygir hyn felly byddaf yn darparu adnoddau a theganau â photensial mathemategol priodol i'r plant. Fodd bynnag, bydd angen i mi fod yn brofiadol, gan fod trefnu adnoddau i'r plant a'r ystafell ddosbarth yn llwyddiannus yn heriol iawn. Felly mae'n ofynnol bod gyda mi lefelau digonol o greadigrwydd gan fod angen cynnwys newydd a deniadol ar blant er mwyn cynnal eu hymgysylltiad. Mae'n bwysig hefyd ystyried nid yn unig y bernir adnoddau i fod yn ddull o ddysgu'n weledol. Mae modelu hefyd yn ddull i ddefnyddio ar gyfer dysgwyr gweledol. Mae modelu yn "fath anhepgor o ddysgu," (Bandura, 1971, t.5) sydd yn caniatáu i unigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth sydd ym mhellach yn gwella eu dealltwriaeth. Mae'n amlwg felly bod modelu yn cynyddu datblygiad, ymddiriedaeth, empathi, gonestrwydd ac adeiladu perthnasoedd; pob un ohonynt yn berthnasol i addysg. Yn dilyn hyn, awgryma Alkhayat *et al.* (2013) mae rhaid i athrawon i adeiladu perthynas gyda'r plant er mwyn gwybod beth yw dewis arddulliau dysgu pob plentyn er mwyn gwneud y broses o ddysgu yn llwyddiannus ac yn effeithiol a bod rhieni yn dilyn i fyny berfformiad eu plant gartref. I grynhoi felly, dylai athrawon nodi ac annog dilyniant mathemategol pob unigolyn trwy gydnabod gwybodaeth a dealltwriaeth y plentyn er mwyn adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol (Taylor, 2014; dyfynnwyd yn Taylor and Harris, 2013). Er hynny, mae diffyg gwybodaeth y plant a rhieni am yr arddulliau dysgu yma yn achosi problemau cyflawniad. Felly, dymunaf nodi yn ystod cyfarfodydd gyda'r rhieni pa arddulliau mae eu plant yn dueddol o ddefnyddio yn yr ysgol.

Yn allweddol, er mwyn gweld cynnydd yn natblygiad mathemateg awgryma Pound a Lee (2011, t.10) bod cal eu haddysgu'n greadigol gan oedolion yn hanfodol i ddeall natur greadigol mathemateg. Dylai athrawon felly roi cyfleoedd i blant archwilio creadigrwydd

trwy fathemateg, (Primary National Strategy, 2006). Gelli gyflawni hyn trwy dynnu sylw ar syniadau mathemategol trwy bwysleisio a thrafod rhifau, meintiau a siapiau, (Matthews, 2014; dyfynnwyd yn Taylor and Harris, 2013). Mae'r strategaeth hon yn caniatáu ar gyfer y cwnmpas ar gyfer rhifedd lle mae sawl maes o'r cwricwlwm yn cael eu trafod ar yr un pryd. Er enghraifft, gellir ymgorffori cerddoriaeth ac iaith trwy ganu am nifer rhywbeth sydd yn berthnasol i'r thema megis ffrwythau a llysiau er enghraifft. Fodd bynnag, wrth weithredu strategaethau o'r fath, mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o'r cwestiynau y maent yn eu defnyddio, gan y bydd defnyddio cwestiynau caeedig yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i ddysgu. Rhaid defnyddio cwestiynau fel cwestiynau rhyfeddod ac agored yn briodol er mwyn gwneud y gorau o botensial plentyn i ddamcaniaethu er enghraifft, (Ibid, 2013). Yn unol â hyn, gan fod y plentyn yn greadigol, byddaf yn rhoi'r cyfleoedd iddi ddysgu mathemateg trwy fod yn greadigol.

Cydweithio a chyfoedion ac oedolion

Gan amlaf, gwelwn ddefnydd effeithiol o sgaffaldio pan mae plant yn cydweithio a chyfoedion. Dywed Bruner (1983) bod sgaffaldio yn caniatáu i blant i ymgeisio, i wneud camgymeriadau ac i ymyrryd priodol i gael ei dynnu yn ôl ar ôl ei weithredu wrth i blant i ddod yn fwy reoleiddiedig. Yn yr un modd, cytuna Woods *et al.* (1976) sydd yn honni bod integreiddio sgaffaldiau mewn addysgu yn effeithiol yn gallu cefnogi elfennau penodol o'r gweithgaredd ymhellach a all fod y tu hwnt i allu dysgu'r plentyn. Un o fanteision y strategaeth hon yw ei bod yn ymgysylltu a phob dysgwr ac yn cynyddu ffocws a dyheadau'r plentyn a all droi at archwilio a chymhelliant gwell (Van Der Stuyf, 2002).

Nodir fod achos posibl o gynnydd y plentyn o fewn iaith a llythrennedd yw oherwydd adnoddau cefnogol megis mat geirfa a strwythur brawddegau sydd wedi ei dosbarthu iddi er enghraifft. Rwyf yn cydnabod nad oes digon o dystiolaeth ar ddatblygiad iaith a llythrennedd y plentyn felly yn y dyfodol, byddaf yn sicrhau fy mod yn casglu digon o ddata er mwyn cefnogi fy nadansoddiadau ac i lenwi'r bylchau. Er hynny, gwelir o fewn y datblygiad yma fod y plentyn yn gallu bod yn ddibynnol iawn ar athrawon ac adnoddau. Byddwn yn ystyried ar gyfer y cam nesaf felly i holi'r plentyn er mwyn asesu dealltwriaeth y plentyn a hefyd hybu'r plentyn i gydweithio a chyfoedion gan mae angen i mi weithio ar fy nharged sef i grwydro a chadw llygaid ar weithgareddau amrywiol yn fwy aml. Golygir hyn felly ni fyddai ar gael i allu rhoi cymorth i'r plentyn pob tro.

Yr ail ystyriaeth yw ymgorffori sgaffaldio yn nhasgau rhyngof i a'r plentyn. Creda Vygotsky (1978) y gallai'r sgaffaldiau rhwng athro neu athrawes a phlentyn yn y parth datblygiad procsimol wella medrau meddwl lefel uwch y plentyn a fydd ym mhellach yn fuddiol i ddatrys problemau annibynnol yn ddyfodol yr unigolyn. Ar y llaw arall, mae Van Der Stuyf (2002) yn datgan bod athrawon sydd heb gael hyfforddiant digonol yn gweld hi'n anodd adnabod, dewis a dylunio sgaffaldio priodol i'r plant. Wrth ystyried hyn, nesaf byddwn yn mynychu cyrsiau ar raglen hyfforddiant ANG ERW (2019) er mwyn datblygu fy ngwybodaeth, i ddysgu unrhyw sgiliau newydd ac i ymgymryd ag unrhyw ofynion hyfforddi a allai fod yn angenrheidiol.

Casgliadau

Gan ystyried yr uchod, mae'n amlwg bod y plentyn o dan sylw wedi gwneud cynnydd ar y cyfan. Yn oleuni hyn, er mwyn gasglu data mwy dilys a ddibynadwy, byddwn yn argymhell casglu data dros gyfnod fwy o amser, gan hefyd defnyddio ystod o ddulliau er mwyn dod o hyd i gasgliad o ddata. Bydd defnyddio amrywiaeth o ddulliau casglu data yn galluogi i'r data canolbwyntio ar fwy o wahanol ddatblygiadau. Bydd gwneud hyn hefyd yn caniatáu i mi gymryd nodiadau manylach a chofnodi cyfweiliadau gyda recordydd llais a thrawsgrifio'r hyn rydym yn trafod er enghraifft. Gallwn hefyd dadlau'r prif fygythiad i ddilysrwydd a dibynadwyedd effeithiol mewn casgli ddata yw tuedd yr ymchwilydd, (Kumar, 2011, t.20).

Er hynny, mae gwneud dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn hefyd wedi bod yn fuddiol i weddill y dosbarth. Un enghraifft yw bod nifer o blant yn hoff iawn o'r gofrestr emosiynau cyn amser cylch ac maent yn ddigon hyderus i drafod sut maent yn teimlo gyda gweddill y dosbarth. Wrth ofyn am lais y plentyn ynglŷn â beth maen nhw am wneud yn ystod amser cylch, sydd yn cynnwys chwarae gemau hefyd, mae'n braf bod well gyda nhw gwneud beth rydw i wedi galw yn 'Jar y Dydd,' sef jar sydd yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â sut maen nhw'n teimlo. Mae hyn yn arwain i drafodaethau a hefyd maent yn rhoi cyfleoedd i'r plant i adeiladu perthnasau wrth iddynt ddod i nabod ei gilydd yn well.

I gloi, rwyf wedi dysgu bod tracio a monitro cynnydd plentyn yn bwysig iawn ac mae cynnydd o fewn un maes datblygiad yn gallu effeithio ar ddatblygiadau eraill. Ym mhellach, mae'n bwysig gweld a yw plentyn ar y trywydd iawn ac mae'n bwysig gweithredu'n gynnar

os oes arwyddion o oedi datblygiad oherwydd mae triniaeth gynnar yn bwysig i wella sgiliau a galluoedd plentyn.

Nifer o eiriau: 4,852

Cyfeiriadau

Alkhayat, A., Ahmad, R. & Alkhayat, M. (2013) 'Preferred learning styles in kindergarten students by the viewpoint of their mothers and teachers'. *Journal of Education and Practice*, 4(10), pp.50-54.

Bandura, A. (1971) *Social Learning Theory*. New York: General Learning Press.

BERA. (2011) Ethical guidelines for educational research. Available at: <https://www.bera.ac.uk/wpcontent/uploads/2014/02/BERA-Ethical-Guidelines-2011.pdf>. (Accessed: 20th May 2019).

Brown, F. & Taylor, C. (2008) *Foundations of Playwork*. 2nd Edition. Maidenhead: McGraw-Hill Open University Press.

Clark, A. (2005) *Ways of seeing: using the Mosaic approach to listen to young children's perspective*. In: Clark, Alison; Kjørholt, Anne Trine and Moss, Peter eds. *Beyond listening: Children's Perspectives on Early Childhood Services*. Bristol: Policy Press, pp.29–49.

Clark, A. & Moss, P. (2001) *Listening to Young Children The Mosaic Approach*. London: National Children's Bureau.

Clark, A., and Moss, P. (2011). *Listening to young children: The mosaic approach*. 2nd Edition. London: National Children's Bureau.

Cohen, L. E. (2008) 'Foucault and the early childhood classroom.' *Educational Studies*, 44(1), pp.7-21.

Dahlberg, G., Moss, P. & Rinaldi, C. (2006) 'In dialogue with Carlina Rinaldi: a discussion between Carlina Rinaldi, Gunilla Dahlberg and Peter Moss'. In: Rinaldi, C. (ed.) *In Dialogue with Reggio Emilia: Listening, Researching, and Learning*. Abingdon: Routledge, pp.178-209.

Dweck, C. (2012) *Mindset*. London: Robinson.

ERW. (2019). *NEWLY QUALIFIED TEACHERS*. Available at: <https://www.erw.wales/schools/leading-learning/newly-qualified-teachers/>. (Accessed: 15th May).

ESTYN. (2015). *Report on* . Available at:
<https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/document/1800189.pdf>. (Accessed: 12th May 2019).

Hollingworth, S., Allen, K., Kuyok, K. A., Mansaray, A. & Rose, A. (2009) *An exploration of parents' engagement with their children's learning involving technologies and the impact of this in their family learning experiences*. Research report. London Metropolitan University. Available at: https://dera.ioe.ac.uk/10475/1/parents_engagement_children_final.pdf. (Accessed: 14th May 2019).

Kumar, R. (2011) *Research methodology: a step-by-step guide for beginners*. 3rd ed. London: Sage Publications Ltd.

Piaget, J. (1972). *The psychology of the child*. New York: Basic Books.

Pound, L. & Lee, T. (2011) *Teaching Mathematics Creatively*. Oxon: Routledge.

Primary National Strategy. (2006) Primary Framework for literacy and mathematics. *Department for education and skills*.

Rinaldi, C. (2005) 'Documentation and assessment: What is the relationship?' in A. Clark, A. Kjørholt & P. Moss (eds) *Beyond listening: Children's perspectives on early childhood services*, Bristol: Policy Press, pp. 17–28.

Smith, P., Cowie, H. & Blades, M. (2001) *Understanding Children's development*. 3rd Edition. Blackwell Publishers.

Stats Cymru. (2018). *Canlyniadau cenedlaethol, yn ôl maes dysgu a lefel a deilliant*. Available at: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Examinations-and-Assessments/Foundation-Phase/nationallevelresults-by-areaoflearning-outcome>. (Accessed: 14th May 2019).

Taylor, H. & Harris, A. (2013) *Learning and Teaching Mathematics 0-8*. California: SAGE.


Van Der Stuyf, R. R. (2002) 'Scaffolding as a Teaching Strategy'. *Adolescent Learning and Development*, pp.2-13.

Vygotsky, L. S. (1978) *Mind in society: The development of higher psychological processes*. Cambridge, MA: Harvard University Press.

Woods, D., Bruner, J.S. & Ross, G. (1976) The role of tutoring in problem solving. *Journal of child psychology and psychiatry*, 17 2), pp.89-100.

Atodiadau

Atodiad 1



Atodiad 2

23/5/19

Nod: I adnabod siapiau 2D

Rholiwch, adiwch a lliwiwch!

Cyfarwyddiadau

1. Rholiwch 2 dis
2. Adiwch y rhifau gyda'i gilydd
3. Lliwiwch yr ateb ac enwi'r siâp

Mae pob chwaraewr yn dewis lliw, yr enillydd yw'r un gyda'r mwyafrif wedi ei liwio ar ddiwedd y gêm.

Ⓐ

Atodiad 3



C11b


Cofnod Darllen

Enw'r dysgwyr: E

Oedran darllen (os ydych yn ei wybod):

Dyddiad	Teitl y llyfr a rhifau tudalennau a ddarllenwyd	Math o lyfr e.e. ffuglen, drama, barddoniaeth	Sylwadau (e.e. darllen er mwynhad, adnabod geiriau, dealltwriaeth o'r testun, dehongliad, ystod darllen)
30-4-19	Ar Ein Gwyliau (1- diwedd)		Darllen yn dda ac yn deall cynnwys y stori
8-5-19	Bili Bom Bom (1- diwedd)		Darllen da.
13-5-19	mrs mgl magl (1- diwedd)		Darllen da iawn. Roedd E yn gallu adnabod priflythrenau ac atalnod llawn.
	Sut i wreud pompom		Cael traffferth i delwedd 'fyll' ac 'ymyl' and yn darllen yn dda ar y cyfan

Atodiad 4



C9a

Ffurflen Arsylwi Dysgwr

Enw'r dysgwr/wyr: E	Dosbarth: CS
Amser: 11:00-11:30	Dyddiad: 28/5/19
Weithgaredd: Mathemateg - I chwilio am siapiau 2D.	

Sylwadau

Yn ystod y weithgaredd yma, roedd E yn meddwl cyn ateb cwestiwn a ofynnais oherwydd roedd hi am ddefnyddio'r Gymraeg, felly roedd hi'n meddwl am y geiriau Cymraeg. Wrth liwio, roedd hi am naddu ei phensil lliw, felly roedd hi wedi gofyn yn garedig i ffrind ~~as~~ ~~attai~~ am ganiatad i ddefnyddu ei naddwr. Unwaith roedd hi wedi gorffen y dasg, roedd hi'n barch iawn i ddangos y ddarn gorffenedig i mi ac yna wnaeth hi helpu i ddacluso.

Atodiad 5



Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi manau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynnydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

YSGOL [REDACTED]

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

A. GRIFFITHS

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

A. Griffiths

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD